**GORCHYMYN TRAFFIG DROS DRO**
**(CILDAUDY ROAD, GOETRE-HEN, PEN-Y-BONT AR OGWR)**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2025**

**RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN** fod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, wrth arfer ei bwerau dan Adran 14(1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), yn bwriadu creu Gorchymyn, a hynny heb fod yn llai na 7 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, a fydd yn cyflwyno'r cyfyngiadau a nodir yn yr atodlen isod.

Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cloddio dau rwystr yn y lôn gerbydau, yn ogystal â'r llain ymyl, i gynnal gwaith atgyweirio ar ased Openreach.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16/07/2025 a bydd yn parhau mewn grym am uchafswm o 18 mis neu nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau, p'un bynnag sydd gynharaf.

Rhagwelir y bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud rhwng 09:30 a 15:30 ar 16/07/2025, neu hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, hyd at uchafswm o 18 mis.

**Atodlen**
Ni chaiff neb beri i unrhyw gerbyd fynd ar hyd Cildaudy Road, Goetre-hen, Pen-y-bont ar Ogwr a bydd 190 metr o'r ffordd ar gau, gan ddechrau o'r gyffordd â Heol Treharne / Heol Coed Leyshon.

Nid oes llwybr amgen ar gyfer cerbydau gan nad oes unrhyw wyriad yn bosibl nac yn angenrheidiol. Bydd mynediad i drigolion adael a chyrraedd eu heiddo. Bydd trigolion yn cael gwybod am gau'r ffordd cyn i'r gwaith ddechrau.

Bydd mynediad i'r gwasanaethau brys yn cael ei gynnal a bydd mynediad yn cael ei gynnal i gerddwyr i bob eiddo.

Fodd bynnag, bydd y cyfyngiadau'n berthnasol dim ond ar adegau ac i'r graddau a ddangosir o bryd i'w gilydd ar arwyddion traffig a osodir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Dyddiad: 24/06/2025

K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
K Watson, Chief Officer Legal & Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB